# Creu effeithiau prosthetig

## Trosolwg

Mae'r Safon hon yn ymwneud â chreu prostheteg ar gyfer ei ddefnyddio mewn cynhyrchiad.

Mae'n cymryd yn ganiataol fod gennych chi'r wybodaeth a'r gallu i greu prosthetegau a dealltwriaeth drylwyr o'r peryglon cysylltiedig.

Bydd angen i chi fod yn gallu cynllunio, cerfio, mowldio, rhedeg a gosod prosthetegau. Bydd angen i chi weithio ar y cyd â phersonél cynhyrchu amrywiol, yn enwedig â'r adran wisgoedd, propiau a styntiau, er mwyn creu'r effaith a ddymunir.

Bydd y Safon hon yn briodol i chi os ydych chi'n creu ac yn gweithredu prosthetegau.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. cysylltu â phobl ac adrannau priodol ynghylch gofynion prosthetig
2. defnyddio ffynonellau dibynadwy i ymchwilio effeithiau prosthetig sy'n ddilys a phriodol
3. creu offer prosthetig yn unol â gofynion cynhyrchu, sgript / manyleb, a chyllideb
4. paratoi creiddiau a chastiau sy'n addas i weithio ohonynt
5. gwneud y mowldio a'r castio terfynol ar ddarnau prosthetig gan ddefnyddio deunyddiau priodol i gwrdd â gofynion cynhyrchu
6. darparu dogfennaeth yn ôl y galw, sy'n amlinellu unrhyw weithdrefnau diogelwch angenrheidiol
7. cynnal diogelwch y cast a'r criw bob amser
8. sicrhau fod unrhyw fasgiau tân yn cael eu gwneud i drwch digonol a'u bod yn gallu cael eu rhyddhau'n gyflym
9. cysylltu â phobl berthnasol a chydweithio gyda nhw i sicrhau fod pob effaith brosthetig yn ddiogel bob amser
10. monitro pobl sy'n defnyddio'r prosthetegau bob amser er mwyn sicrhau nad oes ymateb alergaidd, newidiadau gormodol i dymheredd y corff neu effeithiau ar eu gallu i weithredu'n ddiymdrech
11. gweithredu'n ddi-oed ac yn unol â chyfarwyddiadau iechyd a diogelwch yn achos digwyddiad sy'n gysylltiedig ag effaith brosthetig ar set neu mewn gweithdy
12. tynnu prosthetegau i ffwrdd yn unol â gofynion diogelwch
13. darparu atebion amgen yn unol â gofynion cynhyrchu a chyllideb os na ellir cynhyrchu prosthetegau i'r dyluniad neu'r gyllideb wreiddiol
14. dogfennu asesiad a rheoli risg mewn fformatau priodol

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1. â phwy i gysylltu yn yr adran gynhyrchu, ac yn enwedig yn yr adrannau gwisgoedd, propiau, effeithiau arbennig a styntiau, ynghylch y prosthetegau sydd eu hangen a'u gofynion diogelwch
2. doluriau, clwyfau, ysgythriadau ac anatomi dynol
3. sut i ddefnyddio cynhyrchion gwaed ffug a rigiau gwaed
4. y tymheredd corfforol cywir i'w gynnal wrth ddefnyddio gwisgoedd creaduriaid
5. sut i ymchwilio i brosthetegau penodol i sicrhau eu bod yn ddilys ac yn briodol ar gyfer gofynion sgript
6. technegau penodol i'w defnyddio ar gyfer prosthetegau heneiddio
7. y prosesau i'w cynnal i wneud castiau bywyd a'r deunyddiau sydd eu hangen ar eu cyfer
8. deunyddiau a thechnegau cerflunio, mowldio a chastio
9. pwysigrwydd masgiau tân a'r modd y'u cynhyrchir ar gyfer eu defnyddio wrth losgi corff stỳnt
10. cyflenwadau ac offer aer
11. y deilliannau posib o beidio â defnyddio deunyddiau'n briodol neu'n gywir a'r mesurau i'w cymryd yn syth
12. darpar effeithiau alergaidd a all ddigwydd wrth ddefnyddio prosthetegau, sut i'w hadnabod a sut i weithredu'n briodol
13. sut i gynnal profion eang mewn amgylchedd gweithdy priodol a phwysigrwydd gwirio pob prawf a ddogfennwyd neu a roddwyd ar fideo i osgoi perygl diangen
14. sut i dynnu colur/prosthetegau'n ddiogel
15. animatroneg a'i ddefnydd wrth greu effeithiau arbennig prosthetig
16. yr hyn y gellir ei gyflawni gan ôl-gynhyrchu ac effeithiau gweledol

Creu effeithiau prosthetig

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | ScreenSkills |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 01 Maw 2017 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 01 Maw 2020 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | Creative Skillset |
| **RCU gwreiddiol** | SKSSFX07 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Gweithwyr Proffesiynol Effeithiau Arbennig Ffisegol, Uwch Dechnegydd Effeithiau Arbennig, Hyfforddai Effeithiau Arbennig, Goruchwyliwr Effeithiau Arbennig |
| **Cyfres/Set** | Effeithiau Arbennig Ffisegol |
| **Geiriau Allweddol** | Prosthetig, Gwallt, Colur, Effeithiau, Gweledol, Iechyd a diogelwch |